Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mercher, 30 Ionawr 2013**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Agenda
(110)v2

### 1. Cwestiynau i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 2. Cwestiynau i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (45 munud)

Gweld y cwestiynau

### 3. Cynnig i ddiwygio Rheol Sefydlog 12 yn ymwneud â chyflwyno cwestiynau llafar y Cynulliad (5 munud)

NDM5156 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â Rheol Sefydlog 33.2:

1. Yn ystyried Adroddiad y Pwyllgor Busnes 'Diwygiadau arfaethedig i Reol Sefydlog 12: Dyddiadau Cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad' a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2013; a

2. Yn cymeradwyo'r cynnig i adolygu Rheol Sefydlog 12, fel y nodir yn Atodiadau B i Adroddiad y Pwyllgor Busnes.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Busnes

**4. Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)**

NDM5147

**Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**
**David Rees (Aberafan)**
**William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru)**

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cydnabod y manteision i Gymru o fod yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd.

**Cefnogwyd gan**:

Eluned Parrott (Canol De Cymru)
Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)
Llyr Huws Gruffydd (Gogledd Cymru)
Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru)
Rhodri Glyn Thomas (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)
Ieuan Wyn Jones (Ynys Môn)
Rebecca Evans (Canolbarth a Gorllewin Cymru)
Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd)
Julie Morgan (Gogledd Caerdydd)
Aled Roberts (Gogledd Cymru)
Lindsay Whittle (Dwyrain De Cymru)
Keith Davies (Llanelli)
Elin Jones (Ceredigion)
Christine Chapman (Cwm Cynon)

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn**:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ar ôl 'Ewropeaidd' ychwanegu ', ond yn nodi bod angen ail-negodi telerau perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd'.

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu bod un Llywodraeth Lafur ar ôl y llall yng Nghymru wedi methu'n barhaus â defnyddio cronfeydd strwythurol Ewropeaidd i ddatblygu economi gref a chynaliadwy yng Nghymru.

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi nad oes neb o dan 55 oed yng Nghymru wedi cael pleidlais ar berthynas y Deyrnas Unedig ag Ewrop.

**Gwelliant 4 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu ymrwymiad Prif Weinidog y DU i gynnig refferendwm ar ddyfodol y Deyrnas Unedig yn yr Undeb Ewropeaidd.

**5. Dadl ar ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i Uwch-gynghrair Cymru (60 munud)**

NDM5155 Ann Jones (Dyffryn Clwyd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar Uwch Gynghrair Cymru a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Tachwedd 2012.

Nodwch: Gosodwyd ymateb y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Ionawr 2013.

**Dogfennau ategol:**
Adroddiad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol
Ymateb Llywodraeth Cymru

**6. Dadl y Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)**

NDM5157 William Graham (Dwyrain De Cymru)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi bod busnesau bach a chanolig yn cynrychioli 99.2% o stoc busnesau Cymru a bod mynediad at gyllid yn hollbwysig i hirhoedledd busnesau bach a chanolig.

2. Yn mynegi pryder nad oedd 64% o fusnesau erioed wedi clywed am Cyllid Cymru yn ôl arolwg gan Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru.

3. Yn cydnabod y sialensiau economaidd gwahanol sy'n wynebu cymunedau ledled Cymru a phwysigrwydd sicrhau mynediad lleol at gyllid.

4. Yn cydnabod gwerth creu partneriaethau rhwng Llywodraeth Cymru a banciau'r stryd fawr, neu sefydliadau ariannol eraill, er mwyn darparu cyllid cyhoeddus i fusnesau lleol yn effeithiol ac yn effeithlon.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau'r cynigion sydd wedi'u hamlinellu yn 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' a, phan fo'n briodol, ystyried eu hymgorffori yng nghymorth Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru.

Mae arolwg Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru ar gael yn:

http://www.fsb.org.uk/policy/rpu/wales/images/innovation%20strategy.pdf

Mae 'Gweledigaeth ar gyfer Buddsoddi yng Nghymru: Buddsoddi Cymru' ar gael yn:

http://www.welshconservatives.com/invest-wales

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 - Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

'a deall anghenion ariannol busnesau lleol'

**Gwelliant 2 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn gresynu wrth ddiffyg cynnydd Llywodraeth y DU i annog banciau'r stryd fawr i fenthyg arian i fusnesau bach a chanolig.

**Gwelliant 3 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Cynnwys pwynt newydd ar ôl pwynt 4 ac ailrifo'r pwyntiau'n unol â hynny:

Yn nodi adolygiad Llywodraeth Cymru o argaeledd cyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru ac yn gresynu wrth y diffyg cynrychiolwyr o fusnesau bach a chanolig ar y panel cynghori.

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**

Dileu pwynt 5 a rhoi yn ei le:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried rhinweddau banc busnes sy'n eiddo i'r cyhoedd fel rhan o'i hadolygiad i fynediad busnesau bach a chanolig at gyllid.

**Gwelliant 5 - Aled Roberts (Gogledd Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o Funding Circle ac ystyried rhinweddau cynnig cyllid drwy farchnad Funding Circle, fel rhan o'i hadolygiad o gyllid ar gyfer busnesau bach a chanolig.

**Cyfnod Pleidleisio**

**7. Dadl Fer (30 munud)**

**NDM5158 Leanne Wood (Canol De Cymru):**

Cymunedau Cymraeg - y dyfodol

Sicrhau parhad yr iaith Gymraeg.

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mawrth, 5 Chwefror 2013

**Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 16 Ionawr 2013 i'w hateb ar 30 Ionawr 2013**

**R – Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W – Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

**Gofyn i'r Gweinidog Addysg a Sgiliau**

**1. David Rees (Aberafan):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddatblygiadau cwricwlwm ar gyfer ysgolion. OAQ(4)0232(ESK)

**2. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gefnogaeth arbenigol i blant ag ADHD mewn ysgolion. OAQ(4)0220(ESK)

**3. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y polisïau y mae'n bwriadu eu cyflawni yn 2013. OAQ (4) 0233 (ESK)

**4. Mick Antoniw (Pontypridd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gasglu a defnyddio data biometreg disgyblion gan ysgolion a cholegau. OAQ(4)0225(ESK)

**5. Aled Roberts (Gogledd Cymru):** Beth yw ymateb y Gweinidog i asesiad Estyn bod bylchau yng ngwybodaeth athrawon yn rhwystro plant rhag dysgu Cymraeg. OAQ(4)0230(ESK) **W**

**6. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddisgyblaeth mewn ysgolion yn Nwyrain De Cymru. OAQ(4)0218(ESK)

**7. Antoinette Sandbach (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r blaenoriaethau yn ei bortffolio ar gyfer Gogledd Cymru yn 2013. OAQ(4)0231(ESK)

**8. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i wella lefelau llythrennedd yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0226(ESK)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer y deuddeg mis nesaf. OAQ(4)0217(ESK)

**10. Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** Pa gamau gweithredu y mae Llywodraeth Cymru'n eu cymryd i wella addysgu Cymraeg fel ail iaith. OAQ(4)0219(ESK)

**11. William Powell (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am welliannau i ysgolion yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. OAQ(4)0224(ESK)

**12. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am Arolwg Estyn o Awdurdod Addysg Lleol Powys. OAQ(4)0222(ESK)

**13. Gwyn Price (Islwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am fynediad at brentisiaethau yng Nghymru. OAQ(4)0228(ESK)

**14. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr Unfed Ganrif ar Hugain. OAQ(4)0221(ESK)

**15. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddarparu cymorth i ddysgwyr ag Anghenion Addysgol Arbennig yng Nghymru. OAQ(4)0234(ESK)

**Gofyn i'r Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu sut y mae Llywodraeth Cymru yn mynd i'r afael ag achosion lle mae awdurdodau lleol yn methu â darparu arfer gorau. OAQ(4)0235(LGC)

**2. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru o ran diogelwch cymunedol. OAQ(4)0232(LGC)

**3. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru):** Faint o bobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru sydd bellach yn gorfod talu'r dreth gyngor ers i'r rheoliadau diweddaraf ar y dreth gyngor gael eu pasio. OAQ(4)0229(LGC)**W**

**4. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei gynlluniau ar gyfer dyfodol trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru. OAQ(4)0226(LGC)

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y cydweithrediad rhwng Llywodraeth Cymru a'r sector gwirfoddol. OAQ(4)0236(LGC)

**6. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am gydweithrediad llywodraeth leol er mwyn gwella trafnidiaeth gyhoeddus. OAQ(4)0225(LGC)

**7. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer beicio yn 2013. OAQ(4)0238(LGC)

**8. Christine Chapman (Cwm Cynon):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddull Llywodraeth Cymru o wella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru. OAQ(4)0234(LGC)

**9. Lynne Neagle (Tor-faen):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer Tor-faen yn y flwyddyn i ddod. OAQ(4)0237(LGC)

**10. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol yng nghanolbarth Cymru. OAQ(4)0228(LGC)

**11. Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strwythurau cyflog mewn awdurdodau lleol. OAQ(4)0224(LGC)

**12. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer lleihau troseddau yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0230(LGC)

**13. Vaughan Gething (De Caerdydd a Phenarth):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am waith tasglu Trafnidiaeth Integredig De Ddwyrain Cymru. OAQ(4)0227(LGC)

**14. Janet Finch-Saunders (Aberconwy):** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei flaenoriaethau ar gyfer llywodraeth leol dros y chwe mis nesaf. OAQ(4)0231(LGC)

**15. Sandy Mewies (Delyn):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am wella mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus i ddefnyddwyr sy'n ddall neu'n rhannol ddall. OAQ(4)0233(LGC)